# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 7 TACHWEDD 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# EIN CERFLUN EIN EIRIN



471 o blaid a 121 yn erbyn cadw'r cerflun y tu allan i'r Llyfrgell.
Mwy am hyn ar dudalen 6



Nerys Ann a Mr Eirin ( Peter Jones) yn hybu Eirin Dinbych -
mwy o luniau ar tud 2



Harriers Dinbych - Pencampwyr Gogledd Cymru Râs 10km Sir Fflint -
tudalen 21/24

# Calan Gaeaf yn Ninbych









# Diwrnod Eirin, Dinbych



Gareth, Llaeth y Llan gyda cefn- Dafydd, Elfair a Gwion Roberts; blaen Anest Roberts a Martha Ellis



Alyn Ashworth a Mr Eirin

# Cyfarchion Penblwydd



Penblwydd Hapus ar Tachwedd yr 8fed yn 9 oed i Elenid Gwen gan mam, dad, Mared a gweddill y teulu.

Penblwydd Hapus i Anabel O'Loughlin yn flwydd oed ar 7fed o Dachwedd. Cariad mawr gan Mam a Dad a'r teulu oll.xxx

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

**'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'**

**Golygydd Mis Tachwedd: Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd

## AM DRO

Ydach chi'n gwylio'r rhaglen "Am Dro"? Pedwar dieithryn o bedwar ban Cymru yn arwain y gweddill ar daith o amgylch eu milltir sgwâr ydy'r rhaglen ac Aled Sam ffraeth yn trosleisio sylwadau dros y cwbl. Mae pob taith yn cael marciau allan o ddeg gan y cerddwyr a'r enillydd yn cael gwobr o £1000. Hawdd.

Mae hi'n werth ei gwylio am sawl rheswm. Yn gyntaf, wrth gwrs,ydy i gael gweld gogoniannau Cymru a chael eich tywys drwy'r ardaloedd gan bobl sy'n gyfarwydd â'r llefydd. Yn ail, mae'r ymdrech a roddir i'r picnic a geir ar y teithiau. Ac yn olaf mae gweld sut mae'r pedwar yn closio fel grŵp ac yn rhannu eu hanesion mwyaf personol gyda'i gilydd. Rhaid canmol y cynhyrchwyr ar gael gafael ar amrywiaeth o bobl ac am naturioldeb y cyfrannwyr o flaen y camerau.

Yr hyn sy'n fy synnu am y rhaglen yw cyn lleied mae rhai wedi crwydro Cymru. Mae pawb yn ymwybodol o'r rhaniad rhwng de a gogledd ond mae'r rhaniad rhwng y gorllewin a'r dwyrain yr un mor amlwg. Dydyn nhw ddim wedi clywed am rai llefydd heb sôn am wybod ble maent. Fydd hyn ddim yn syndod i neb ond rydym yn genedl go blwyfol mewn gwirionedd! Ond wedi bod ar daith i le dieithr mae'r rhan fwyaf yn awchu am weld mwy.

Beth wnelo hyn â ni, ddarllenwyr Y Bigwn, mi'ch clywaf chi'n gofyn. Rwyf wedi sôn o'r blaen yn y golofn hon gymaint rydym yn mwynhau mynd am dro efo Meg, y ci, ar hyd llwybrau'r dref yma. Yn ystod y clo cyntaf daethom o hyd i sawl llwybr newydd ac roedd yn braf cyfarch pobl yng nghanol ryw gae neu'i gilydd pan oeddem yn gaeth fel arall. Ond daeth tro ar fyd ac mae rhai o'r llwybrau hynny wedi eu newid yn llwyr. Mae gwrychoedd wedi eu dad-wreiddio a giatiau go newydd wedi diflannu i wneud caeau helaethach. Gyda mwy a mwy o alw am blannu coed a chadw gwrychoedd er mwyn gwarchod yr amgylchfyd, sut mae cyfiawnhau peth o'r fath?

Ond rydym yn dal i grwydro yr un fath. Er nad ydym yn pacio picnic i fynd efo ni mae'n braf cael piciad am baned i ambell gaffi ar ein taith a braf ydy cael croesawu caffi newydd yn y dre 'ma a hynny ar waelod yr allt. Piciwch i mewn i'r Copper Pot am banad a sgwrs a sgons cartref! Lle arall cyfleus ydy'r caban newydd ar dir Fferm y Brwcws sydd â thameidiau blasus ar gael o beiriannau gwerthu.

Crwydrwr nid anenwog oedd Henry Morton Stanley yn ei ddydd. Anturiaethwr, fforiwr – galwch o beth fynnwch chi. Mae llawer wedi ei ysgrifennu amdano yn ddiweddar, neu am y cerflun tu allan i'r Llyfrgell beth bynnag. Bellach mae ei dynged wedi ei selio ac mae'n cael aros yno.

Angharad Rhys

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**


| | |
|---|---|
| Di enw | £ 10.00 |
| Dr Hywel a Mrs Eiddwen Watkin | £ 10.00 |
| Gaynor Morgan Rees | £ 10.00 |

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Rhagfyr**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Tachwedd 19**

sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Cymdeithas Caledfryn

Agorwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd ar nos Wener Hydref 1af gan y Llywydd sef Rod Williams.Dywedodd mai dyma'r cyfarfod cyntaf ers Chwefror 2019 ac fe fu'n sioc mawr i bawb glywed am farwolaeth Gwyrfai.Yn ôl Rod ef oedd y trysorydd dibynnol,yn gymwynaswr heb ei ail ac yn arweinydd cadarn.Fel cymdeithas dywedodd ein bod yn cydymdeimlo yn fawr gyda Heather,Nia a Helen.Cafwyd teyrnged hyfryd hefyd gan Graham Floyd a ddywedodd bod Gwyrfai yn berson oedd bob amser yn cymryd popeth o ddifri ac y bydd gwacter mawr ar ei ôl.
Cyfeiriodd Rod hefyd at farwolaeth John Hall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.Roedd John bob amser yn barod i gefnogi cymdeithasau lleol yn y Felin Brwcws.
Cyflwynodd Llywydd y noson sef Llifon ein siaradwr gwadd sef Iwan Hughes,Y Fflint.Dyma'r pedwerydd tro i Iwan annerch y gymdeithas ac ers y tro diwetha mae wedi ymddeol o'i swydd fel Pennaeth yr Adran Saesneg yn Ysgol Maes Garmon.
Testun ei sgwrs y tro yma oedd Peilotiaid y Rhyfel Byd Cyntaf a dywedodd iddo ddechrau ymddiddori yn y pwnc ar ôl iddo dderbyn llyfr am y 'Red Baron' gan ei dad pan yn blentyn.Treuliodd rhan gyntaf ei sgwrs yn sôn am beilotiaid Almaenig,hogiau ifanc rhwng deunaw a phump ar hugain oed.Fel arfer roedd oes y peilotiaid yn un byr iawn ac ar gyfartaledd ond yn para tua thrigain awr o hedfan cyn cael eu saethu i'r llawr.Nid oedd parasiwt ar yr awyrennau cynnar ac roeddent wedi eu hadeiladu o goed a chynfas ysgafn.
Dywedodd Iwan bod ganddo obsesiwn a hanes y peilotiaid,yn dipyn o 'nerd' ,yn ei eiriau ei hun ac iddo unwaith fod yn berchen cudyn o wallt y Barwn Coch(Manfred von Richthofen)cyn ei wethu yn ddiweddar am £800.
Cyfeiriodd Iwan at rai o beilotiaid o dras Cymreig ac yn eu plith roedd Robert Roberts o Dowyn,Abergele ac Arthur Rhys Davies o Abertawe.Un o'r peilotiaid mwya lliwgar oedd Tom Rees o Dyfynnog,ger Aberhonddu a laddwyd gan y Barwn Coch.Ceryddwyd Tom gan beilotiaid ffroenuchel o'r ysgolion bonedd Lloegr am ddiffyg moesau rhyfel am iddo saethu at beilotiaid Almaenig tra yn hongian o'u parasiwtiau!Ni welai Tom ddim o'i le mewn saethu at yr 'Hun'-ble bynnag yr oeddent.
I gloi y sgwrs soniodd am dri Cymro arall sef Iorwerth ap Rowland Owen o Lerpwl,James Thomas Eira Taffy Jones o San Cler a Lionel Wilmot Brabazon Rees o gyffiniau Caernarfon.
Diolchwyd i Iwan gan Llifon a dywedodd bod pawb wedi mwynhau ac wedi eu cyfarfeddu gan ei wybodaeth,ei ddawn dweud stori a hynny heb ddarn o bapur o'i flaen.



# Diolch Dwylo Diogel




Dyma lun o Arwel yn cyflwyno rhoddion i Ellen yn Dwylo Diogel, Trefnant.
Cafodd Lilian Sarah Jones, Mam Arwel Emlyn Jones, ofal arbenig yn Dwylo Diogel gan Ellen a'r criw. Gofal dydd, chwe awr y dydd yn cynnwys cinio. Hefyd cafodd nifer fawr o weithgareddau fel gweu, crefftau, arlunio, gwneud cacennau a mwy. Roedd y gofal gan Ellen a'r criw yn debyg i gymdeithas Capel neu ysgol gyfeillgar cefn gwlad.
Roedd y canu emynau a chaneuon difyr eraill yn hwyliog a chofiadwy bob Dydd Iau. Buasai Arwel yn argymell y gofal 100% yma i unrhyw un sydd angen hynny neu angen cwmniaeth yn ystod y dydd. Mae yn le sy'n galluogi i'r rhai sy'n mynd yno ac yn gofalu amdanynt fyw bywyd.
Mae diolch Arwel i Dwylo Diogel yn fil am eu cyfeillgarwch a gofal arbenig.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda
Ellen Newcombe,
Dwylo Diogel. Rhif ffôn: 07444716876
Mae Dwylo Diogel ar gael yn Trefnant a Rhuthun.

Arwel Emlyn Jones



# Cigydd o fri – sêl bendith i'r selsig




Mae dau fath o selsig sy'n cael eu cynhyrchu gan gigydd o Ddinbych wedi cyrraedd rhestr fer cystadleuaeth Hybu Cig Cymru. Mae Daniel Morris, sydd â siop ar waelod Stryd y Dyffryn, wedi creu selsig sy'n cynnwys Cwrw Sinsir a Catwad (siytni) Eirin Dinbych ac mae'r ddau yn amlwg wedi creu cyn argraff ar feirniaid y gystadleuaeth. Meddai Daniel, "Mae'r ddau selsig yn gwbl unigryw ac yn llawn o gynhwysion lleol. Eirin Dinbych, wrth gwrs, sydd yn amrywun treftadaeth o'r ffrwyth, a hefyd porc lleol wedi eu cyfuno â chwrw sinsir grymus"

Cyhoeddir enillydd y gystadleuaeth ar wefan newydd Porc Blasus ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod y mis nesaf.

## Ymgynghoriad Marchnad Menyn

Grŵp Cynefin

Helo,

Rydym yng nghanol y broses o ymgynghori gyda'r gymuned ar gynlluniau ar gyfer y Marchnad Menyn (hen goleg Dinbych). Hoffem rannu'r linc gyda mwy o wybodaeth a'r holiadur hefo chi: https://forms.office.com/r/UtT85qAPVD

Rydym hefyd yn rhannu'r ymgynghoriad ar dudalen Facebook y prosiect os hoffech rannu'r 'post': Marchnad Menyn Dinbych / Denbigh Butter Market | Facebook

Os hoffech fwy o wybodaeth, peidiwch ac oedi cysylltu â mi.

Diolch yn fawr am eich help,

Buddug

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Syr Henry Morton Stanley

Tydi ystadegau yn bethau peryg/difyr. Gallwch eu defnyddio fel y mynnoch. Ac mewn gwirionedd mae hyn yn enghraifft o hynny. Pleidleisiodd 79.6% o bobl i adael cerflun H M Stanley lle y mae. Nifer mawr meddech. Ond wedyn dim ond 8.8% o'r rhai oedd â'r hawl i bleidleisio wnaeth drafferthu gwneud hynny. Beth mae hyn yn ei ddweud amdanom fel trigolion y dref?

Beth mae eraill yn ei ddweud am y dyn ei hun? Yn Y Bywgraffiadur Cymreig dywedir "Arloesydd canolbarth Affrica. Nid oes fawr a wnelo ei yrfa, hynod iawn, â Chymru – gŵyr pawb iddo yn 1871 ddod o hyd i David Livingstone yn Ujiji; iddo yn 1874 groesi canolbarth Affrica o ddwyrain i orllewin, a bwrw seiliau'r dominiwn Belgaidd ar lannau Congo; ac iddo drachefn (1887), ddarganfod tiroedd na wyddid amdanynt ond a ddaeth yn ddiweddarach yn 'British East Africa.' Bu ei dras a'i yrfa fore'n bwnc dadlau am amser maith ... Yn hwyr iawn o ddydd (1899) urddwyd ef yn farchog – oeraidd oedd teimladau rhai cylchoedd tuag ato."

Yn Y Gwyddoniadur dywedir ei fod yn newyddiadurwr a fforiwr ac "yntau'n asiant ar ran Brenin Leopold o Wlad Belg, roedd yn un o sylfaenwyr Gwladwriaeth Rydd y Congo, cyfundrefn a ddaeth yn nodedig am ei rhaib a'i gwanc." parhad ar dudalen 6

Mae bywgraffiad Cymraeg o H M Stanley gan Howard Huws yn egluro pam ei fod yn hollti barn. Yn y cylchgrawn Golwg yn ddiweddar dywed "Yr oedd ynddo rywbeth Manicheaidd a enynnai un ai addoliad neu gasineb llwyr, a mynegid hynny trwy ei ddawn creu gwrthdaro, gosod pobl benben â'i gilydd, ac yna eu gadael i ddadlau tra elai ef ymlaen i'w antur nesaf."

Does dim wedi newid! Marmite go iawn!

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.


CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu**
**01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com



SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
cojo@siopclwyd.co.uk




## Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru – Rhith Ŵyl 2021

**Cyngherddau am ddim ar-lein - nwimf.com**
**Rhwng 15fed o Dachwedd – 15fed o Rhagfyr**

Mae 50fed GGRGC eleni yn cael ei llwyfannu fel digwyddiad hybrid. Ffilmiwyd chwe chyngerdd byw yng nghartref traddodiadol yr Ŵyl, Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ac mae eraill wedi'u recordio mewn lleoliadau eraill.

Ymhlith y cyngherddau mae London Tango Quintet, cerddorfa breswyl NEW Sinfonia gyda'r pianydd John Frederick Hudson, Ensemble Cymru, Côr Efengyl y DU, y pianydd Iwan Llewelyn Jones, Family Affair gyda Brian Hughes a'r tenor Dafydd Jones, y cyfansoddwr Paul Mealor, y cerddor gwerin Gwenan Gibbard, Cerddorfa Genedlaethol Cymreig y BBC, a'r delynores Catrin Finch gyda'r chwaraewr kora Seckou Keita.




# CALAN GAEAF

Welsoch chi rai o'r rhain yn ffenestri'r dref dros yr wythnosau diwethaf? Mae Noson Galan Gaeaf yn brysur droi'n fwy o ddathliad na Noson Tân Gwyllt a'r siopau'n llawn o wisgoedd a danteithion i yrru'r ysbrydion ar eu hynt ar Noswyl yr Holl Saint. Mae llawer yn cwyno mai rywbeth Americanaidd ydy hyn i gyd ond dyma i chi gasgliad o Hen Benillion traddodiadol am yr hen ŵyl hon:

Mae heno'n nos Glangaea',
A bwci ar bob camfa,
A Jac-y-lantern ar yr hewl –
Rhaid mynd neu ca' fy nala.

Nos Glangaea', twco 'fala',
Pwy sy'n dod ma's i chwara'?
Ladi wen ar ben y pren
Yn naddu coes ymbrelo.

Hwch ddu gwta ar bob camfa,
Yn nyddu a chardio bob nos Glangaea'.
Adre, adre, am y cynta',
Hwch ddu gwta gipio'r ola'.

Ac yn well nag unrhyw ddanteithion yn y siopau beth am wneud eich taffi triog eich hun. Dyma i chi hen rysait y dois i ar ei draws:

**Taffi Triog neu Gyflaith**

Olew i iro
450g siwgwr brown tywyll
125ml dŵr poeth
ỳ llwy de hufen tartar
115g triog du
115g triog melyn

Leiniwch dun maint A4 gyda phapur gwrth-saim a'i iro'n dda. Rhowch y siwgwr a'r dŵr poeth mewn sosban â gwaelod trwchus a'u cynhesu ar wres isel nes bo'r siwgwr wedi toddi .Peidiwch â throi'r gymysgedd.

Pwyswch weddill y cynhwysion a phan fydd y siwgwr wedi toddi'n llwyr ychwanegwch weddill y cynhwysion a rhowch thermomedr sigwr yn y sosban hefyd. Rhowch dro bychan i'r gymysgedd yr un pryd.

Codwch y gwres a dewch â'r cwbl i'r berw tan y daw i 'soft crack' ar eich thermomedr* (270/140C). Gall hyn gymryd hyd at 30 munud, byddwch yn amyneddgar a chadwch lygad arno drwy'r adeg rhag iddo ferwi drosodd! Unwaith y daw i'w wres, tywalltwch i'r tun a'i adael i oeri.

Wedi iddo oeri trowch o allan o'r tun a'i dorri gyda rholbren. Mwynhewch ond gwyliwch eich dannedd!

*Os nad oes thermomedr gennych, gollyngwch ychydig i gwpan o ddŵr oer nes ei fod yn aros ar wyneb y dŵr.

# O'r Llyfrgell


**Sialens Ddarllen Haf 2021** - Hyfryd oedd croesawu plant y fro nôl i'r llyfrgell i gymryd rhan yn y sialens. Fe ymunodd dros 350 yn y sialens yn Llyfrgell Dinbych gan ddarllen dros chwe llyfr yr un - ymateb gwych mewn cyfnod o bandemig! Roedd y rhain yn blant o 30 o ysgolion yn yr ardal ac ymunodd bron i 60 o blant 0-4 oed yn yr hwyl hefyd. Gan mai thema'r sialens oedd Arwyr y Byd gwyllt, bydd y plant wedi mwynhau astudio eu hamgylchfyd a dod yn arwyr ardderchog gwarchod natur ac ailgylchu.

**Digwyddiadau** - Gyda rhai canllawiau wedi llacio ers ein hadroddiad diwethaf, mae'n braf croesawu pobl i bori'r silffoedd a dewis o'r amrywiaeth eang o stoc sydd ar ein silffoedd ar eich cyfer. Mae rhai gweithgareddau wedi ailgychwyn yn yr adeilad fel Dechrau Da i'r babanod a phlant ifanc. Cynhaliwyd digwyddiad Drysau Agored yn ddiweddar gyda gweithdy lego poblogaidd i blant a'r adeilad hanesyddol ar agor dros y penwythnos i ymwelwyr.


**Gwasanaethau Digidol** - Mae'r cynnig ardderchog i ddefnyddio'r wefan Ancestry trwy'ch aelodaeth Llyfrgell am ddim wedi ei estyn tan ddiwedd y flwyddyn - cymrwch fantais os yw eich bryd ar hel achau. Am bapurau newydd a chylchgronau cofiwch am yr apiau Pressreader a Libby, cewch ddarllen miloedd o bapurau a chylchronnau am ddim, yr oll sydd ei angen yw eich cerdyn llyfrgell a PIN. Ewch i'r ddolen - <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/gwasanaethau-digidol-a-gwybodaeth.aspx> neu cysylltwch â'r llyfrgell am fanylion.

**Profion Llif Unffordd** - Gallwch nawr ddod i gasglu pecyn profion llif unffordd Covid 19 am ddim o'r llyfrgell.


Nofel afaelgar am berthynas mam a merch, wrth iddynt deithio mewn hen VW i leoliadau arwyddoacaol yn hanes y genedl, gan adrodd straeon ar hyd y daith. Gwelwn y tebygrwydd, y gwrthdaro a'r agosatrwydd rhyngddynt. Cyfrol arobryn Medal Ryddiaith Eisteddfod AmGen 2021, wedi ei darlunio gan Efa Lois.





Dydyn ni ddim yn gwneud niwed i unrhyw beth byw yn y byd. Mae Plentyn Om am ddangos ahimsa i ni, a'r holl ffyrdd y gallwn ni fyw mewn heddwch – o ddweud y gwir a rhannu popeth, i ddweud diolch. Addasiad Cymraeg




Dyma'r bumed, a'r olaf, yng nghyfres Y Pump. Mae Cat yn un o griw'r Pump, sydd ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Llwyd. Mae ei ffrindiau go iawn yn ei chadw'n gryf yn ystod cyfnod heriol, ac mae'n darganfod hiwmor er gwaetha'r dioddefaint a'r boen.




Cyfrol arall am fwy o ferched sy'n ysbrydoli marched a bechgyn Cymru. Dyma arwresau o Gymru, sydd wedi llwyddo yn eu meysydd arbenigol: Vulcana, Ann Pettitt, Craogwen, Lowri Morgan, Mary Vaughan Jones, Rachel Rowlands, Margaret Haig Thomas, Annie Atkins, Mary Quant, Shirley Bassey, Lucy Thomas a Meena Upadhyaya. Cyfrol llawn hwyl, yn lliwgar ac yn ddeniadol i'r llygad.

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# YMDDIRIEDOLAETH BYWYD GWYLLT GOGLEDD CYMRU YN YMUNO AG YMGYRCH NEWYDD I FYND I'R AFAEL Â BAW CŴN

carucymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

**Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn annog perchnogion cŵn i wneud y peth iawn a chodi baw eu hanifeiliaid anwes fel rhan o ymgyrch cenedlaethol newydd gan Cadwch Gymru'n Daclus.**

Er yr amcangyfrifir bod naw allan o ddeg o berchnogion cŵn yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes, mae baw ci yn dal yn broblem mewn cymdogaethau ar draws y wlad. Nod ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus yw codi ymwybyddiaeth o'r peryglon iechyd sydd yn gysylltiedig â baw cŵn; nid yn unig i bobl ond hefyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes eraill.

Gall baw ci sydd wedi ei adael ar ôl gario bacteria niweidiol all barhau yn y pridd ymhell ar ôl iddo bydru.

Mae'r ymgyrch cenedlaethol yn cael ei gynnal fel rhan o Caru Cymru – mudiad cynhwysol sydd yn cael ei arwain gan Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol i ysbrydoli pobl i weithredu a gofalu am yr amgylchedd.

Yn seiliedig ar ymchwil gan arbenigwyr newid ymddygiad, bydd arwyddion pinc llachar, posteri, stensiliau pawennau a sticeri biniau yn ymddangos ar draws Gogledd Cymru i 'ysgogi' pobl i wneud y penderfyniad iawn.

Dywedodd Chris Wynne, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru:

"Mae'n bwysig iawn bod perchnogion cŵn yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn gofyn i berchnogion cŵn wneud hyn i ddiogelu bywyd gwyllt, anifeiliaid fferm, a defnyddwyr eraill.

Gyda chymaint o gŵn bellach yn ymweld â'n gwarchodfeydd natur mwyaf poblogaidd yn rheolaidd, rydym eisiau osgoi'r cyfoethogi lleol sydd yn digwydd pan fydd baw cŵn yn cael ei adael i bydru. Nid ydym chwaith eisiau i ymwelwyr eraill – yn cynnwys plant ysgol a'n gwirfoddolwyr neu'n staff – annog gwastraff o'r fath a'r perygl o ran clefydau y gallai ei gyflwyno.

Ac mae perygl sylweddol i wartheg hefyd, sydd yn chwarae rôl bwysig yn pori yn rhai o'n gwarchodfeydd natur. Mae Neosporosis yn glefyd peryglus sydd yn gallu effeithio ar gŵn ac achosi erthyliadau mewn gwartheg; gellir ei drosglwyddo ddwy ffordd rhwng stoc a chŵn.


Gall pob perchennog ci chwarae eu rhan."

Dywedodd Lesley Jones, Prif Weithredwr Cadwch Gymru'n Daclus:

"Rydym yn llawn cyffro yn lansio'r ymgyrch pwysig hwn gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol. Fel cenedl sydd yn caru cŵn, dylem i gyd fod yn ymwybodol nad llanast amhleserus yn unig yw baw ci, gall fod yn beryglus.

"Rydym yn annog y lleiafrif bach o berchnogion cŵn anghyfrifol i wneud y peth iawn. Trwy beidio â chodi baw eich ci, gallech fod yn peryglu pobl, anifeiliaid fferm, a'n hanifeiliaid anwes annwyl. Bagiwch, biniwch a gadael olion pawen yn unig pan fyddwch allan."

Mae pobl yng Ngogledd Cymruac ar draws Cymru yn cael eu hannog i ymuno â'r ymgyrch newydd. Ewch i wefan Cadwch Gymru'n Daclus i ganfod mwy a lawrlwytho deunyddiau am ddim: www.keepwalestidy.cymru/caru-cymru



Mae Caru Cymru wedi derbyn cyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

# Mwy o Atgofion

Cawsom lythyr arall yn ddiweddar gan Freda Pierce o Gartref Glyn Nest yng Nghastell Newydd Emlyn. Fel y gwyddoch bellach, mae Freda'n meddwl y byd o Ddinbych ac yn derbyn Y Bigwn bob mis.

Yn ei llythyr diweddaraf mae Freda'n hel atgofion. Mae'n cyfeirio at 'Briodas yn y Fron Gan Mlynedd yn ôl' yn rhifyn Mawrth 2021 sef priodas Mr. a Mrs. Stephen Davies. Dyma'r llythyr:-

'Cofiaf y ddau yn iawn pan roeddwn yn byw yn Ninbych (1942+). Roedd Mr. Davies bob amser yn serchog gyda gwên barod. Roeddwn yn drist pan fu farw mor ifanc. Roedd y teulu, Mr. a Mrs. Davies, a'u meibion Gwynfryn a Meirion yn mynd i'r Capel Mawr ac roeddwn innau'n mynd yno hefyd a Meirion a minnau yn ffrindiau yn Ysgol Ramadeg Dinbych – roeddem tua'r un oedran. Cafodd Meirion bob cefnogaeth gan weinidog y Capel Mawr, Y Parch J.H. Griffiths pan roddodd Meirion ei fryd ar fynd i'r weinidogaeth.

Rwy'n cofio Gwynfryn mewn iwnifform Y Royal Navy yn edrych yn smart iawn yn cerdded i lawr at sêt y teulu yn y Capel Mawr.


Mi es i'r Ysgol Ramadeg yn Ninbych yn 1944 gan eistedd arholiad Tystysgrif Addysg (yr hen 'School Certificate') yn 1949 ac yna i'r VI ( dosbarth chwech un) yn 1950 ond oherwydd nad oedd Mathemateg neu Lladin yn un o'r pynciau roeddwn wedi eu pasio, doeddwn i ddim yn haeddu 'Matriculation.' Tydi Mathemateg ddim yn fy myd hyd heddiw, felly roedd rhaid anelu i basio Lladin yn 1950 er mwyn cael 'Matric.'

Pwy o ddarllenwyr Y Bigwn sy'n cofio'r fath reol? A ble mae Meirion Lloyd Davies yn dod i mewn i'r stori? Wel, roedd Meirion yn VI ( dosbarth chwech dau) erbyn hynny a'i lygad ar fynd i Gaergrawnt lle'r oedd yn orfodol i gael Lladin i gael eich derbyn. Felly, dyma fi a Meirion yn cael gwersi yn ein 'hamser rhydd' gyda'r athro Lladin, Y Parch Edward Jones (Ned) ac mi ddaru ni ddod yn ffrindiau go iawn y flwyddyn honno. Cafodd y ddau ohonom lwyddiant yn yr arholiad ac fe aeth Meirion ymlaen i ennill pob clod a pharch haeddianol yn ei fywyd fel gweinidog. Chwarae teg, roedd Meirion yn cofio'n glir y gwersi 'extra Latin' pan roeddem yn digwydd cyfarfod yn rhywle!

A beth am Mair, gweddw'r Parch Meirion Lloyd Davies a ddanfonodd adroddiad priodas Mr. a Mrs. Stephen Davies i'r Bigwn?

Faint o'r darllenwyr sy'n cofio'r gyfres 'Sêr y Siroedd' ar Radio Cymru tua 1958, 59, 62? Roeddwn i wedi priodi erbyn hynny ac yn byw yn Sir Fflint. Roeddwn yn rhan o dîm Sir Fflint a enillodd y gystadleuaeth yn 1959 ac mae'r gwpan arian a roddwyd am ennill yn dal yn y teulu.

Roedd Mair Lloyd Davies yn ysgrifennydd y gyfres yr amser hynny gyda Gwyn Williams yn gynhyrchydd ac wrth gwrs roeddent yn dod o Fangor ar gyfer recordio pob rhaglen. Roeddwn i'n un o driawd Cerdd Dant (Triawd Licswm) oedd yn cystadlu ar y rhaglen. Hefyd roedd Margaret Williams (soprano) yn cystadlu. Daeth yn wedyn ar S4C. Un arall oedd Euryn Ogwen Williams, crwt ifanc, oedd yn adrodd.



Mr. a Mrs. Stephen Davies.

Tybed a fydd Mair yn cofio rhieni Euryn Ogwen yn dod â basged yn llawn brechdanau a choffi i ni ar gyfer yr ymarferion oedd yn tueddu i fynd ymlaen am oriau……

Diolch am atgofion lu trwy dudalennau'r Bigwn.

**Freda Pierce.**



# Creu'r Gymru a Garem …..

Pa fath o Gymru hoffech *chi* ei gweld ar gyfer eich plant a phlant eich plant? Mae Cymdeithas y Cymod yn gweithio dros gymunedau a chenedl fwy diogel, cyfiawn a chyfartal. Rydym yn rhan o fudiad rhyngwladol sy'n credu yn y llwybr di-drais mewn ymateb i ryfel a militariaeth. Dyma fraslun o'n gweledigaeth a'n gwaith…

**Addysg:**
Rydym yn falch o weld cwricwlwm yng Nghymru sydd yn anelu at baratoi pobl ifanc at y dyfodol fel dinasyddion sydd yn ymwybodol o'r heriau sydd yn ein hwynebu ac yn barod i'w goresgyn. Credwn, er hynny, y dylai fod mwy o bwyslais ar alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau i gydberthyn ag eraill ar sail parch a goddefgarwch. Nid oes lle yn ein hysgolion ar gyfer recriwtio milwrol, a dylai hynny gael ei wahardd.
Mae Cymru'n wlad gyda threftadaeth heddwch anhygoel a dylai fod mwy o bwyslais ar hyn yn ein hysgolion. Cymru, er enghraifft, yw'r unig wlad yn y byd sydd wedi anfon Neges Heddwch ac Ewyllys Da oddi wrth ein pobl ifanc i bobl ifanc y byd yn flynyddol ers canrif. Dylai plant ddysgu am storïau fel hyn a'u dylanwad.
A ydy Cymru'n wlad sydd yn hybu heddwch heddiw? Un ffordd o godi ymwybyddiaeth am heddwch yw hyrwyddo **pabis gwynion** yn arwain at Sul y Cofio. Wrth wisgo pabi gwyn, rydym yn cofio pawb sydd yn dioddef oherwydd rhyfel, gan gynnwys unigolion, teuluoedd a phlant, ac yn dangos dyhead am fyd heb di-drais. Gallwch archebu pabis gwyn gyda 'hedd' yn y canol twy gysylltu â cymdeithasycymod@gmail.com.

**Llesiant a Ffyniant economaidd:**
Dylai fod mwy o bwyslais yn ein cymunedau ar hyrwyddo sgiliau rhwngbersonol a datrys gwrthdaro. Mae'n bwysig symud oddi ar economi sydd yn ddibynnol ar greu arfau dinistriol tuag at greu swyddi gwyrdd cynaliadwy. A wyddoch chi fod pob person yng Nghymru yn cyfrannu £572.40 y flwyddyn at y diwydiant arfau? Hoffem weld Cymru sydd yn canolbwyntio ar dyfu economi gwyrdd.

**Dysgu o'r gorffennol a gweithio tuag at ddyfodol gwell…**
Un peth sydd wedi dod yn amlwg yn ystod y pandemig yw'r ffaith nad yw arfau niwclear yn medru ein hamddiffyn rhag beryglon megis heintiau a newid hinsawdd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear y Cenhedloedd Unedig a rhoi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i wneud yr un fath.
Mae rhannau mawr o diroedd Cymru yn cael eu defnyddio at bwrpas milwrol – ardaloedd megis Mynydd Epynt a Chastell Martin. Mae Cymdeithas y Cymod am gadw yn fyw'r cof am yr hyn yr oedd y troi o'u tiroedd yn ei olygu i'r teuluoedd oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn. A oes angen yr holl dir hwn ar gyfer ymarfer tuag at ryfel, a sut mae hyn yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol?

**Croeso ichi ymuno gyda ni!**
A hoffech gyfrannu at ein hymgyrchoedd? Rydym angen pobl gydag amrywiaeth o sgiliau. Cysylltwch â ni os hoffech drafod sut medrwch gyfrannu a hefyd sut i ymaelodi. Diolch!
Ewch at ein gwefan: www.cymdeithasycymod.cymru neu ysgrifennwch at cymdeithasycymod@gmail.com.



Ffair Arfau



A oes heddwch yn Llandudno

**Gwisgwch Babi Gwyn dros Heddwch!**
**I gofio holl ddioddefwyr rhyfel.**
**I herio militariaeth.**
**I adeiladu diwylliant heddychlon.**
**I archeb pobis gwyn**
cymdeithasycymod@gmail.com
am 50c yr un




Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

wefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus

https://cwmulus.org/

Arddangosion newydd

Mae'r Amgueddfa wedi bod ar agor ar brynhawn Sadwrn ers dechrau mis Medi ac mae nifer galonogol o bobl leol a rhai ar eu gwyliau wedi ymweld â ni. Un prynhawn, cyrhaeddodd ymwelwyr â llond eu breichiau o falfiau, fel y gwelwch yn y llun, a llyfr, yn rhodd i'r Amgueddfa.




"Everyman's Wireless Book" gan F.J. Camm, golygydd cylchgrawn "Practical Wireless" am flynyddoedd, o 1948 yw'r llyfr. Mae'n cynnwys pob math o wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adeiladu radios gartref, canllaw ar gyfer darganfod beiau, a gwybodaeth am falfiau, cydrannau radio, batris a chipynnau gramoffôn.

Derbyniodd yr Amgueddfa lyfr arall yn ddiweddar hefyd, "The Maintenance of Wireless Telegraph Apparatus" gan Percy W. Harris o 1917. Mae'r llyfr yn cynnwys gwybodaeth am y math o gyfarpar radio oedd ar long y Titanic, a llongau eraill yn yr un cyfnod. Mae'n sôn am Drawsglwyddyddion Spark, Erialau, Cyfarpar Derbyn (setiau crisial) a gwahanol fathau o fatris. Mae'n bosib bod y llyfr hwn wedi cael ei ddefnyddio ar long deithwyr y S.S. Royal George, a adeiladwyd ar y Clyde, a fu'n gwasanaethu fel Llong Filwyr Canada yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl y rhyfel, prynwyd a defnyddiwyd y llong gan Cunard fel llong i deithwyr eto.

Digwyddiadau




Yn narlith dairieithog mis Medi siaradodd Roddy Maclean o Inverness ar **Mynydd a Monadh – Atseiniau o Gymraeg yn Nhirlun Gaeleg yr Alban.** Gaeleg yw prif iaith Ucheldir Gogledd yr Alban a'r Ynysoedd, ac mae'n tyfu ar hyn o bryd yn ninasoedd yr Alban, diolch iDuolingo. Mae'r cysylltiad rhwng y Gaeleg a'r Wyddeleg yn amlwg, ond mae 'na gysylltiad gyda'r Gymraeg hefyd, gan fod y dair iaith wedi datblygu o'r Gelteg yn wreiddiol. Rhoddodd Roddy enghreifftiau o dermau am dirffurfiau a natur sy'n darlunio'r cysylltiad:

Carn Cruinn - Carn Crwn
Carraig - Carreg
Comar - Cymer
Creag - Craig
Gleann - Glyn
Strath - Ystrad
Tràigh - Traeth

ac o ddiddordeb lleol i ni yn Ninbych:

Dùn Beag - Caer fach

Mae heriau yn wynebu'r iaith Gaeleg heddiw yr un fath ag unrhyw iaith leiafrifol arall ac mae cadw'r boblogaeth yn yr Ucheldiroedd yn waith anodd.

Eitemau o'r casgliad



Dyma radio piano a wnaethpwyd gan brentis saer o Ruthun yn y 1920au. Mae 'na set grisial diwifr tu mewn i'r piano ac mae'r nodau wedi eu gwneud o ifori. Mae'r llun wedi cael ei gynnwys mewn nifer o gyhoeddiadau dros y blynyddoedd.

Y Darlithiau nesaf

Dyma'r darlithiau ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i'r gwefannau uchod neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru:

→

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

Ar Dachwedd 19eg, bydd Dr. John Walsh yn siarad yn Saesneg am **Pirate.ie – archifo ffyniant radio peirat Gwyddelig 1978-1988**. Mae Dr. Walsh yn Ddirprwy-Ddeon ym Mhrifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway, ac yn gyd-sylfaenydd Pirate.ie, archif ar-lein agored o recordiadau hanesyddol radio peirat yn Iwerddon, 1978-1988. Yn y cyfnod hwn, cyrhaeddodd radio peirat Iwerddon uchafbwynt oherwydd bylchau cyfreithiol ac analluʼr dosbarth gwleidyddol i reoleiddioʼr sector. Bydd Dr. Walsh yn disgrifo datblygiad yr archif recordiadau ac yn honni bod gan y sector oblygiadau pellgyrhaeddol i ddiwylliant.



Mae Cwmulus ac Amgueddfa Gwefr heb Wifrau yn ddiolchgar iawn i dderbyn grant er mwyn darparu cyfieithu ar y pryd yn y darlithiau Cymraeg. Bydd hyn yn ein galluogi ni i drefnu darlithiau Saesneg a Chymraeg bob yn ail yn ystod y flwyddyn nesaf. Gwyliwch y gwefannau am fanylion.



Aelodau o glwb ‘Flying High’ yn Ninbych

“Everyman’s Wireless Book” gan F.J. Camm, golygydd

# EFFAITH GADARNHAOL BRENIG WIND LTD AR GYMUNEDAU....



Mae Cronfa Ffermydd Gwynt Brenig yn cael ei weinyddu gan Cadwyn Clwyd ac yn cynnig bron i £4 miliwn, dros gyfnod o 25 mlynedd, i brosiectau cymunedol yn yr ardal budd. Mae’r ardal gymwys yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn ymestyn o Lanelwy yn y gogledd hyd at Faerdy, ger Corwen yn y de ac o Afon Clwyd yn y dwyrain at Fynydd Hiraethog, Cerrigydrudion a rhannau uchaf Dyffryn Conwy. Mae map o’r ardal sy’n elwa ar wefan Cadwyn Clwyd.

Eglurodd David Heelan o Brenig Wind Ltd:

“Mae’n gyfle gwych i gymunedau cefn gwlad elwa. Mae Cadwyn Clwyd, y gweinyddwr cronfeydd lleol, eisoes wedi cyflwyno ymhell dros £350,000 i 55 o wahanol brosiectau yn yr ardal yn ystod pump rownd cyllido.”

“Mae’n bleser gennym ni weld ehangder ac ansawdd y prosiectau cymunedol sydd wedi’u cefnogi gan Brenig ynghyd â’u heffaith gadarnhaol ar y cymunedau hynny.”

“Caiff y ceisiadau eu cyflwyno ger bron panel grantiau lleol sy’n gyfrifol dros wneud y penderfyniadau terfynol o ran lle a sut caiff y cyllid ei wario” ychwanegodd David.
Mae Cronfa Brenig Wind Ltd yn cynnal rowndiau cyllido sy’n cyd-daro gyda chyfarfodydd panel. Bydd y rownd nesaf yn agor 1af o Dachwedd 2021 ac yn cau 5ed o Ionawr 2022 ac mae rhagor o wybodaeth ar wefan Cadwyn Clwyd www.cadwynclwyd.co.uk/brenig.
Dyma rhai o’r prosiectau sydd wedi cyllido yn y dalgylch hyd yma:

- Menter Iaith Sir Ddinbych – Nerth dy Ben
- St Dyfnog’s Well – Adeiladu Llwybr
- Cyngor Cymuned Nantglyn – gosod diffibriliwr allanol awtomataidd (AED)
- Clwb Pêl-Droed Nantglyn – cit pêl-droed Newydd
- Offer ar gyfer cylch Meithrin a Ti a Fi Llanrhaeadr
- Cylch Meithrin Prion – adnoddau, offer a sied
- Denbigh Community First Responders – cynyddu lefel y gwasanaeth
- Cymdeithas Sioe a Chwn Defaid Llanrhaeadr – offer ar gyfer y sioe flynyddol
- Merched y Wawr Nantglyn – Ymweliad hanes ac archifau
- Clwb Bowlio Dinbych – cyfarpar i gynnal a chadw’r lawnt
- Clwb Rygbi Dinbych – llifoleuadau ar y cae hyfforddi
- Flying High in Denbigh – ail-lansio


TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings, Lôn Gefn, Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**
**01745 816576**



# David Jones, Cyfreithiwr

**Mae un o gyfreithwyr amlycaf gogledd Cymru yn dathlu 30 mlynedd gyda chwmni hirsefydlog.**

Mae David Jones wedi treulio tri degawd gyda chwmni Cyfreithwyr Edward Hughes, o'r Rhyl a Bae Colwyn, ac sydd hefyd fel cwmni wedi dathlu carreg filltir nodedig yn ddiweddar sef 70 mlynedd yn y busnes.

Gwelodd David, o Ddinbych, nifer fawr o newidiadau – gan gynnwys datblygiadau technolegol mawr ers cychwyn cyfnod y pandemig Covid-19 – ac mae wedi cynrychioli miloedd o bobl ar draws yr ardal mewn achosion yn ymwneud â chyflogaeth, niwed personol, troseddol a sifil.

Wrth iddo baratoi i groesawu ei ferch Ela i'r practis fel paragyfreithiwr, i ymuno â'i brawd Ben, sydd bellach wedi cymhwyso yn gyfreithiwr, bu David, sy'n 52 oed, yn hel atgofion am ei gyfnod yn gweithio i'r cwmni.

"Roeddwn am fod yn gyfreithiwr ers yn ifanc iawn. Y cyfle i helpu pobl ac i wneud gwahaniaeth oedd yn apelio i mi", meddai.

"Fe wnes i brofiad gwaith yn Ninbych a'i fwynhau yn fawr iawn – yn arbennig cyfarfod â phobl a dod ar draws sawl cymeriad."

"Fyddwn i rioed wedi dychmygu sut fyddai'r swydd wedi newid gymaint dros y blynyddoedd; mae wedi altro y tu hwnt i bob adnabyddiaeth ond rwyf yr un mor benderfynol ac angerddol am y gyfraith ag erioed"

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, aeth David ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Lerpwl ac Ysgol Y Gyfraith yng Nghaer cyn ymuno â chwmni Cyfreithwyr Edward Hughes yn y 90au cynnar.

"Doedd gen i fawr o ddiddordeb yn ochr gorfforaethol y gyfraith, er bod hynny yn fwy proffidiol. Roeddwn i am ganolbwyntio ar achosion sifil a niwed personol er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl" meddai.

"Dyna wnes i, ac wrth i'r busnes dyfu fe ges i wahoddiad i ddod yn bartner yn y cwmni ar droad y ganrif."

"Mae'n parhau i fod yn fraint ac fel cwmni rydym o hyd wedi ceisio gweithredu yn yr ysbryd cywir. Tristwch yw bod sawl practis yn yr ardal ddim yn bodoli bellach, ond rydym ni wedi dal ein tir ac aros ar y blaen"

Ychwanegodd, "Mae yna newidiadau aruthrol wedi digwydd ar hyd y ffordd, o deipiaduron i broseswyr geiriau ac ymlaen i dechnoleg modern heddiw gyda llawer o gyfreithwyr yn sownd yn eu swyddfeydd ac achosion yn cael eu cynnal ar-lein"

"Mae hynny wedi bod yn anochel oherwydd y pandemig ond mae'r cyswllt gyda chyd-weithwyr a chleientau yn rhywbeth rwyf yn gweld ei golli. Mae'r elfen bersonol yn bwysig iawn i mi, oherwydd ei bod yn gyfrifoldeb mawr cyrychioli rhywun – amddiffyn neu erlyn – gan ddal rhan fawr o'u dyfodol yn eich dwylo"

"Mae technoleg wedi symud pethau ymlaen, ond nid bob tro i'r cyfeiriad cywir. Mae llawer o doriadau wedi cael effaith negyddol, yn arbennig ar bobl fregus, sydd yn beth trist i'w weld, ac rydych yn gwario llai o amser gyda chleientau. Ond dyna lle ydan ni erbyn hyn a rhaid derbyn bod y byd yn symud yn ei flaen"

Mae David yn edrych ymlaen at 10 mlynedd arall yn y maes cyfreithiol ond mae'n cyfaddef efallai y bydd yn amser am newid bryd hynny.

"Rwyf yn edrych ymlaen at y dyfodol – pwy a ŵyr be ddaw nesa? Mae gennyf nifer o syniadau, llawer o bethau yr hoffwn eu gwneud, a llawer i'w roi yn ôl. Gwyliwch be ddaw!"

"Rwyf wedi bod yn lwcus i gael gweithio ar achosion anferth gan gynrychioli cannoedd ar gannoedd o bobl wrth weithio ochr-yn-ochr â staff gwych yma yn Edward Hughes – mae wedi bod yn anrhydedd."

"Gall hon fod yn swydd ddwys ac arswydus, ond rhaid dal ati. Yn y pen draw dyna pam rydym yn y swydd ac ar ôl 30 mlynedd mae fy meddylfryd dal 'run fath, sef ceisio rhoi cymorth i'r rhai sydd fwyaf ei angen."

Am fwy o wybodaeth ac i gysylltu ag Edward Hughes Solicitors, ffoniwch 01745 343661 neu ewch i'r wefan www.qualitysolicitors.com/edwardhughes . Gallwch eu dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol @QSEH_Solicitors.

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

NATIONAL SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS

**HUW VAUGHAN JONES**


**Arlunydd,Cartwnydd**

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.

**Cysylltwch â Huw ar**

**01745 812184**

# Dathlu cyhoeddi gwaith rhai o lenorion “mwyaf talentog Cymru”




Ar ddiwedd wythnos o ddathlu gweithiau buddugol y rheiny gystadlodd yn Eisteddfod yr Urdd 2020, mae’r Urdd yn falch o gyhoeddi fod copïau o ‘Deffro’ – cyfrol y cyfansoddiadau ar ei newydd wedd – bellach ar gael mewn siopau llyfrau lleol ac ar ffurf e-lyfr.

Yn ôl trefnwyr Eisteddfod yr Urdd, roedd hwn yn gyfle da i ailedrych ar fformat y cyfansoddiadau ac ailwampio’r gyfrol yn gyfan gwbl. Felly am y tro cyntaf erioed, mae’r gyfrol wedi’i threfnu yn ôl themâu yn hytrach na fesul cystadleuaeth, a delweddau trawiadol yn cyd-fynd gyda’r cynnwys.

Yn addas iawn, dau o gyn-enillwyr Eisteddfod yr Urdd sydd wedi cydweithio er mwyn ailwampio’r cyfansoddiadau, sef yr arlunydd Efa Lois o Aberystwyth (Prif Artist Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018) a’r golygydd creadigol Brennig Davies o Wenfro ym Mro Morgannwg (Prif Lenor Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a’r Fro 2019).

“Ar ôl misoedd o waith cynllunio, braf yw cael cyhoeddi’r gyfrol gyfoes hon gyda chefnogaeth y Cyngor Llyfrau,” meddai Siân Eirian, Cyfarwyddwr Adran Eisteddfod yr Urdd a’r Celfyddydau. “Mae darluniau hyfryd Efa a’r ffordd mae Brennig wedi ymdrin â’r cynnwys, wir yn dod a gwaith yr enillwyr yn fyw i’r darllenwr. Mae meithrin talent pobl ifanc wrth galon gwaith Eisteddfod yr Urdd, a dyma gyfrol sy’n arddangos talent y genhedlaeth nesaf o lenorion. Mynnwch gopi a mwynhewch!”

Yn ôl Efa Lois, mae’r gyfrol yn trafod “pynciau o bwys byd-eang”, ac mae Brennig o’r farn fod *Deffro* yn cynnwys gwaith gan rai o lenorion “mwya’ talentog Cymru”:

“Braint fawr oedd cael fy ngwahodd i olygu’r gyfrol yma, a phleser pur oedd y gwaith golygyddol,” meddai Brennig, a gwblhaodd ei radd BA mewn Saesneg yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen, yn ddiweddar. “Ges i’r cyfle i ddarllen a mwynhau straeon, cerddi, dramâu ac areithiau gan rai o lenorion ifanc mwya’ talentog Cymru – pobl dwi’n falch iawn o gael eu galw’n gyfoedion.


“Er bod y darnau yma’n gapsiwl o gyfnod cyn-COVID, maen nhw’n delio â themâu oesol – cariad, colled, cenedl, ieuenctid, byd natur, a mwy – sydd, erbyn hyn, yn teimlo’n fwy perthnasol fyth. Braf, mewn ffordd, oedd cael gweld bod rhai pethau’n newid, ond bod pethau eraill yn siŵr o barhau, gan gynnwys creadigrwydd y Cymry ifanc mae’r Urdd (ac yn enwedig yr Eisteddfod) yn helpu i’w gynnal a’i ddathlu.”

Mae rhestr gynhwysfawr o enillwyr y gweithiau cyfansoddi a ddaeth i law yng ngwanwyn 2020, ynghyd â beirniadaethau, bellach ar gael ar wefan Eisteddfod yr Urdd.

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Ysgol Twm o'r Nant

Dyma ni ar drothwy yr hanner tymor yn ysgrifennu hwn. Hanner tymor prysur iawn a bwrlwm yr ysgol yn ôl fel ag yr oedd cyn yr haf. Hanner tymor heriol hefo'r hen cofid yn parhau i ledu drwy'r ysgol. Mae canmol mawr i'r plant, staff a rhieni am ddilyn gweithdrefnau a chydweithio hefo ni i wneud y gorau o'r sefyllfa.





Cawsom fwynhau sioe rhithiol gan gwmni Make some noise o wasaneth cerdd Sir Ddinbych. Cawsom flas ar ba fath o wersi offerynnol y buasai'r plant yn gallu eu derbyn yn yr ysgol, ac rydym yn falch o ddweud bod nifer wedi rhoi eu bryd ar ddysgu chwarae offeryn newydd ar ôl y gweithdy yma. Pwy a wyr efallai y gallwn sefydlu cerddorfa yn Ysgol Twm o'r Nant yn y dyfodol agos!








Cawsom godi arian tuag at elusen gancer, drwy adael i'r plant wisgo gwisg eu hunain a phrynu cacennau yn eu hunedau. Diolch i'r cyngor ysgol am drefnu hyn o dan arweiniad Mrs Ceri Roberts.
Bu dreigiau iaith pob uned yn cyfarfod dan arweiniad Ms Amanda Williams er mwyn creu fidio a rhoi cais am £500 i godi safonnau y Gymraeg o fewn yr ysgol.
Braf yw cael dweud ein bod wedi bod yn llwyddiannus a byddwn nawr yn gobeithio prynu arwyddion lliwgar i ledaenu'r iaith ar y buarth i blant a rhieni ac hefyd prynu system sain gwrth ddwr lle gallwn ei ddefnyddio ar y buarth i fwynhau a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg yn ystod amser chwarae, neu yn y neuadd fwyd yn ystod amser cinio. Diolch i'r holl ddreigiau iaith am eu syniadau penigamp.







Uned Dan 5

Mae'r disgyblion Meithrin a Derbyn wedi setlo yn arbennig o dda yn ystod eu hanner tymor cyntaf yma gyda ni yn yr Uned Dan 5. Mae'r disgyblion wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd ac wedi cyrraedd yr ysgol gyda gwên bob bore. Da iawn chi blant!
Cawsom hanner tymor llawn hwyl yr hydref gyda nifer o weithgareddau hydrefol. Cafodd y disgyblion amser bendigedig yn peintio pwmpen yn yr ardal tu allan a hefyd yn dysgu am liwiau dail yr hydref.
Mae'r disgyblion dosbarth derbyn wedi bod yn brysur yn dysgu am sain, ystyr a symbolau llythrennau mewn nifer o arddulliau gwahanol. Rydym hefyd wedi bod yn ffurfio rhifau cyfri, pwyso a mesur ac yn creu patrymau.
Ein thema tymor yma ydy 'Fi fy hun' rydym wedi bod yn trafod bwydydd sydd yn iach i ni ac yna aethom ati i greu cebab ffrwythau blasus!
Edrychwn ymlaen yn fawr at dymor y Nadolig nesaf!









Uned Dan 7
Wel dyna ni'r hanner tymor cyntaf wedi prysur hedfan heibio a'r plant wedi cael llu o brofiadau dysgu gwahanol. Yn dilyn cwestiynau gan y plant am y thema cawsom ymweliadau gan Miss Sutherland yn trafod organau ac esgyrn y corff, Dr. Young yn trafod ei gwaith fel meddyg teulu a'r gweinidog Andras Iago yn cynnal bedydd.
Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau hwyl yr Hydref yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Edrychwn ymlaen at thema newydd 'Dathliadau' ar ôl y gwyliau.





Uned Dan 9
Rydan ni'n dod i ddiwedd ein thema 'Dyma fi!' ac wedi mwynhau y gweithgareddau yn fawr. Mae pob un plentyn wedi dysgu sut i ysgrifennu portread da ac wedi rhoi eu bryd ar amryw o heriau yn ein ardaloedd.
Mwynhaodd y plant ddysgu am 'Pam bod eu hysgol nhw wedi cael ei henwi yn Ysgol Twm o'r Nant', a chawsant gyfle i efelychu Twm o'r Nant ei hun drwy gael hel aeron o'r goeden ysgawen a chreu inc ysgawen. Bu'r plant wrth eu boddau yn ysgrifennu hefo pluen ac inc, yn ogystal ag ambell aelod o staff – diolch i Mr Davies, ein pennaeth am roi cynnig arni.







Daeth Dr Kat Griffiths atom sef mam Osian yn yr uned i sôn am ei gwaith fel meddyg. Roedd y plant yn frwdfrydig iawn yn holi cwestiynau a chafwyd bore gwerth chweil yn dod i ddysgu mwy am sut mae ein corff yn gweithio. Diolch Dr Kat am eich amser.

Roedd ein cylch olaf o heriau cyn yr hanner tymor yn cynnwys dysgu am Lois Braille. Cafodd y plant gyfle i ysgrifennu llythrennau a rhifau mewn Braille a theipio mewn Braille gyda pheiriant arbennig. Cawsant gyfle i brofi sut mae deillion yn teimlo arwynebedd gwahanol gyda ffon gerdded a gweld gyda chymorth 'sbectol arbennig pa fath o deimlad ydi hi i fod yn ddall neu rannol-ddall.



Cawsom gynnal bedydd yn neuadd yr ysgol, o dan arweiniad Y Parch Andras, a chafodd rhai o'r plant ddod a'u gwisgoedd bedydd eu hunain i fewn er mwyn cael eu harddangos.



Mae Mr Tony ein gofalwr wedi bod yn garedig iawn, ac ar ddymuniad nifer o blant yr uned, wedi adeiladu cegin fwd yn ei ardal tu allan. Mae'r plant wrth eu boddau yn coginio a chreu prydau i'w gilydd yno!
Tybed sawl seren fyddai'r gegin fwyd yma yn ei chael gan yr awdurdodau!!!

Braf oedd clywed swn canu yn dod gan bob uned yn yr ysgol a buodd yr uned dan 9 hefyd yn brysur yn dysgu caneuon diolchgarwch. Yn anffodus ni chafodd rieni ddod i'r ysgol i'r gwasaneth diolchgarwch ond recordiwyd pawb yn canu eu caneuon a'u gyrru allan yn rhithiol. Cawsom gyfle i ddiolch am ein byd a phopeth sydd ynddo.



Uned dan 11
Gyda diwedd yr hanner tymor yn dod i ben, mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio yn galed ar eu diolchgarwch. Yn wahanol i'r arfer, rydym wedi gwneud ein diolchgarwch yn rhithiol lle mae modd i chi ei wylio eto pe dymunwch. Yn y dosbarth mae'r disgyblion wedi mwynhau darganfod am Anne Frank a dysgu am sut mae llong tanfor yn gweithio. Yn anffodus cafodd ein diwrnod ifaciwi ei ohirio ond yn sicr byddwn yn ail drefnu ar gyfer yr hanner tymor nesaf.
Hoffwn hefyd longyfarch tîm pêl droed merched yr ysgol am eu llwyddiant yn curo Ysgol Frongoch mewn gem gyfeillgar. Roedd hi'n gem a hanner!

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Twm o'r Nant

Mae gweithgareddau'r Gymdeithas dal i barhau ar-lein yn bennaf gan fod dim modd cynnal gweithgareddau yn yr Ysgol.  Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar-lein, croesawyd Mr Dafydd Davies i'r gymdeithas.  Etholwyd swyddogion newydd – Gwenan Ellis fel ysgrifennydd, Amanda Lawson fel Trysorydd, Julie Wyn Jones fel Is-gadeirydd ac Arwyn Roberts fel Cadeirydd.

Rydym wedi parhau i gefnogi'r ysgol, drwy roi £2000 i rannu rhwng yr unedau i wario ar yr ardaloedd tu allan.  Buom yn lwcus i gael ein derbyn i  fod yn 'Achos Lleol' ar y cerdyn Coop, felly mae modd rhoi 2c allan o bob £1 o'ch siopa yn y Coop tuag at offer tu allan yn yr ysgol.  Gallwch wneud hyn ar yr ap neu ar eich cyfrif Coop ar-lein.

https://membership.coop.co.uk/causes/63199

Mae'r plant wedi mwynhau gwella eu hardaloedd, ac rydym yn falch i allu cyfrannu.  Mae gan yr ysgol flwch ailgylchu dillad erbyn hyn hefyd, felly cofiwch amdanom wrth glirio!   Mae ein loteri wythnosol dal i barhau, gallwch gymryd rhan yn www.tinyurl.com/lototwm









## Atebion Hydref 2021

**Ar Draws :**
1. Ceunant
5. Edmygus
9. Noddfa
10. Adferadwy
11. Ymosodiad
12. Arogl
13. Chwant
15. Daearegwr
18. Methodoleg
19. Deian
21. Neidr
23. Deuddegfed
25. Ailgasglu
26. Naddwr
27. Symudol
28. Oedolyn

**Lawr :**
1. Cynnyrch
2. Urdd Gobaith
3. Alamo
4. Trawiadol
5. Elfed
6. Môr-ladrad
7. Godro
8. Smyglwr
14. Tuduriaid
16. Esgeuluso
17. Gwirfoddol
18. Mantais
20. Nid yr un
22. Islam
23. Degol
24. Ennyd

I

## CROESAIR TACHWEDD 2021



**Ar Draws :**
1. Pennaeth mynachlog
4. Deniadol
10. Tir angof
11. Cylchgrawn dychanol ar gael adeg Steddfod
12. Un o esgyrn y fraich
13. Taro
14. Pentref bychan ar ran troellog o'r A5
15. Ystafell lle caiff ymwelwyr eu cyfarch
17. Gorchudd llawr
20. Arolygu cyn cyhoeddi
22. Yr hawl i roi gorchymyn
24. Cymorth i groesi o un cae i'r nesaf
26. Hen wyddor Geltaidd
28. .... dadeni yn y Mabinogi
30. Yw, ydyw, ydy neu ...
31. Ni ellir ei gael yn ôl
32. Ansicrwydd
33. Dwyn i fyny

**I Lawr :**
2. Wedi bod ynghynt
3. Mesur penodol
4. Parc yr ....., stadiwm yng Nghaerdydd
5. "Hir yw pob ......"
6. Lle neu gyflwr delfrydol
7. Arian sydd rhaid ei ad-dalu
8. Coeden gyda blodau porffor
9. ee dŵr ar 100$^0$C
13. Gwynnu dillad
16. Partner Efa
17. Castell ....., craig ger Llyn Cwellyn
18. Deugain (6,3)
19. Heb ddiwedd
21. Datgysylltu
23. Elfen rhif 27
24. Codwm
25. Pa mor fach neu fawr yw rhywbeth
27. Trefn sefydlog
29. Offeryn Britton a Watts

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# DEMENTIA GYFEILLGAR DINBYCH

Lluniau tudalen 25

**GAN E DILWYN JONES – CADEIRYDD Y GRWP**

Wrth i gyfyngiadau Covid ddechrau llacio, daeth cyfle i'r grwp yma, sydd ar waith ers dipyn dros dair blynedd bellach, ail-afael rhywfaint mewn gweithgareddau a fu yn amhosibl eu cynnal am beth amser.

Eto, ni fu'r grwp yn hollol segur hyd yn oed yng nghyfnod gwaethaf Covid ychwaith. Sicrhawyd Amazon Echo-dots am ddim i sawl cartref a sefydliad oedd yn gofalu am rai yn byw hefo dementia ac, yn fwy diweddar, rhoddwyd cwn robotic (cwn tegan yn "anadlu") i'r cartrefi a'r sefydliadau hynny.

Mae'r Amazon Echo-dots, fel Alexas, yn gallu chwarae cerddoriaeth ar unrhyw adeg dim ond i'r gwrandawr ddweud pa gân neu gerddoriaeth sydd ei eisiau a gorchymyn ei chwarae. Mae'r cwn yn gallu tawelu a chysuro pobl yn rhyfeddol. Yr oeddwn fel cadeirydd wedi cyflwyno cwn yn bersonol i Gartref Plas Llanrhaeadr ac i Ofal Dydd Capel Waengoleugoed er cof am fy mam ac yng ngwyneb y gofal a'r cymorth a gafodd mam o'r ddau le. Wedi gweld o hynny, fel arbrawf, eu bod yn boblogaidd, rhoddwyd rhai wedyn gan y grwp i Blas Eleri a Llys Meddyg a hefyd Dolwen yn Ninbych a Park Lodge yn Nhrefnant.

Cynhaliwyd sawl sesiwn o gelfyddyd natur yn y dref hefyd – natur er budd iechyd - hefo arian grant a thrwy'r grwp ac y mae adroddiadau am hynny eisoes wedi ymddangos yn y wasg.

Yr oedd gan y grwp bresenoldeb yn yr Wyl Eirin yn ddiweddar a bydd criw ohonom yn nigwyddiadau troi'r goleuadau Nadolig ymlaen yn y dref drwy'r dydd ar Dachwedd 26ain.

Hefyd, cynhaliwyd sesiynau ffrindiau dementia gan Rebecca Bowcott a Cheryl Williams yn Saesneg a Chymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth ar Zoom trwy gydol y cyfnod Covid ac y maent yn parhau ar gael trwy Zoom neu wyneb yn wyneb – hyd yn oed yn benodol ar gyfer grwpiau neu fusnesau – dim ond i unrhyw un gysylltu yn unol â'r manylion ar ddiwedd yr erthygl yma. Y maent wedi eu cynnal mewn ysgolion ac ar gyfer busnesau a staff cartrefi henoed a siopau ayyb. Mae pob un sy'n mynychu sesiwn yn derbyn bathodyn bach y gellir ei wisgo er mwyn dangos eu bod yn ymwybodol o faterion o ran dementia.

Yr ydym hefyd wedi bod yn ymweld â siopau a busnesau a'u hannog i ymgysylltu â'r grwp trwy wneud addewidion syml a newidiadau fydd o gymorth i rai sy'n byw hefo dementia. O wneud hynny, y mae'r siop neu'r busnes ayyb yn cael tystysgrif, sticer ffenestr a llun yn y wasg!

Mae hyn yn wir o ran grwpiau crefyddol, cymunedol a chrefyddol, ysgolion, gwasanaethau brys a sefydliadau celfyddydol a hamdden hefyd. Mae Ysgol y Parc a'r llyfrgell newydd adnewyddu eu hymgysylltiadau.

Edrychwn ymlaen rwan at allu gwneud mwy a mwy a hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor ac i Rebecca Bowcott (yr ysgrifenyddes) ac Ann Edwards (y drysoryddes) yn arbennig am eu gwaith rhagorol.

Cysylltwch ar dementiafriendlydenbigh@outlook.com neu ffoniwch Dilwyn ar 01745 813195

AnnwylOlygydd a ddarllenwyr,

## FFRINDIAU DEMENTIA

Hoffwn gyflwyno fy hun ichi. Melanie ydw i a fi yw Rheolwraig Prosiect Dementia Gogledd Cymru. Un o'r blaenoriaethau sydd gennyf ydi cyfarfod y rhai hynny ohonoch sydd yn un ai'n gofalu am rywun â Dementia, neu unigolyn sy'n byw â Dementia.

Fe fuasai'n braf clywed gennych er mwyn imi ddysgu pa wasanaeth allwn wella neu / a pha wasanaethau fuasech yn hoffi ei weld yn eich hardal chi.

Gallwch gysylltu â mi un ai drwy ebost melanie.sillett@sirddinbych.gov.uk neu ffôn/ neges testun 07768 006414.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan a gyda'n gilydd gallwn sicrhau y bydd Cymru'n genedl dementia gyfeillgar.

Yn gywir,
Melanie Sillett.
**ELUNED M YAXLEY**
Swyddog Ymgysylltu

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT GOGLEDD CYMRU


*BBC Radio Cymru yn cyflwyno...*

**NADOLIG LEAH**

*gyda phlant lleol a sêr Cymru a'r West End*

yn Neuadd y Dref, Dinbych


**Nos Sul, Rhagfyr 12fed, 7.00pm**

Tocynnau £10 (£5 plant) o'r siopau Cymraeg

*Holl elw at Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych*

**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Harriers Dinbych

Diwedd mis Medi eleni cafodd Harriers Dinbych barti mawr yng Nghlwb Rygbi Dinbych i ddathlu sefydlu y clwb ar y 3ydd o Hydref 1991. O'r 19 aelod gwreiddiol, dim ond 5 sy'n parhau yn aelodau, Ron Birch, Fred Jones, Duncan Jones, David fy ngŵr a minnau. Mae ein aelod hynaf yn 83 oed a'r ieuengaf yn 12 oed gan ein bod ers dros flwyddyn rwan wedi sefydlu Adran Ieuenctid hefyd sy'n cyfarfod bnawn Sadwrn am 2 p.m a nos Fawrth am 5:30 p.m gyda thri hyfforddwr David Baugh, Elen Baugh a Mel Morris.
Mae'r Clwb yn cyfarfod sawl gwaith yr wythnos .. Ar nos Lun am 6:30 mae sesiwn i ddechreuwyr. Erbyn hyn mae oddeutu 20 neu fwy o aelodau wedi hyfforddi ar gyfer arwain grwpiau o redwyr ac rydym yn annog a chefnogi pobol sy'n gwbwl newydd i ymuno â chwrs 10 wythnos tebyg i "Couch i 5 k" ddwywaith y flwyddyn. Trwy gydol y flwyddyn byddwn yn cefnogi ac annog y rhedwyr hyn.
Am 6:30 ar nos Fawrth mae sesiwn cyflymder, ar gaeau'r ysgol yn yr Haf, ac ar yr elltydd o gwmpas strydoedd Dinbych yn y Gaeaf gan orffen drwy redeg fyny'r allt at giatiau'r castell!
Am 6:30 trwy gydol yr Haf, ar nos Wener, byddwn yn rhedeg ar y llwybrau cyhoeddus o gwmpas Dinbych gan redeg i Gwaenynog, Coed Copi, Y Glyn, Coed Segrwyd, Cae Dai, Choed Pen Dref ... ... yn wir, unrhyw le ble mae llwybr cyhoeddus! .
Bore Sadwrn bydd llawer ohonom yn rhedeg ar Fryniau Clwyd os nad oes râs i'w rhedeg ac ar fore Sul bydd criw yn rhedeg ar y ffyrdd o gwmpas Dinbych neu Landyrnog neu Lanelwy. Cawn ambell daith anturus i Eryri yn yr Haf hefyd gan fwynhau ysblander y mynyddoedd.
Un râs gyhoeddus byddwn yn ei threfnu mewn blwyddyn a honno erbyn hyn wedi ennill ei thir fel râs lwybr boblogaidd ... râs Y Fuwch Frech o amgylch cronfa yr Alwen. Mae hi wedi bod yn râs bencampwriaeth Gogledd Cymru ers blynyddoedd ac yn râs uchel ei pharch ymhlith rhedwyr sy'n mwynhau rhedeg oddiar y priffyrdd.
Yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Haf byddwn yn cynnal râs clwb o ryw dair milltir a hanner unwaith y mis ar y llwybrau cyhoeddus ar gaeau'r Goblyn a'r Ystrad yn Ninbych. Osgoi y gwartheg ydy un o brif amcanion y râs hon, greda i! Mae'r rhedwyr arafaf yn cael mantais ( os mantais hefyd o gofio bod gwartheg ar y caeau!) o gychwyn yn gyntaf, gyda'r siawns i bob aelod fedru cyrraedd yn ôl yn gyntaf, ac ennill.
Ym mis Rhagfyr mae gan y clwb râs 6 milltir i'r aelodau .... râs hir a chaled o'r Ganolfan Hamdden ar lwybrau cyhoeddus ar hyd yr Ystrad at Gofeb Dr. Johnson, i fyny i Gwaenynog ac yn ôl. Mae'r rhedwyr araf yn cael cychwyn y gyntaf eto. Antur a hwyl ydy'r râs hon a bydd hanes sawl tro trwstan yn y cinio a gynhelir ar ei hôl!.
Felly, mae digon yn digwydd yng Nghlwb Rhedeg Dinbych a mae hyn heb gyfri y rasys ffordd, y rasys mynydd, y rasys llwybrau, y rasys cynghrair traws gwlad sydd wedi ail -ddechrau .... ac erbyn hyn mae 'r 19 aelod gwreiddiol yn 150 + aelod gan gyfri'r oedolion a'r ieuenctid ... gan sicrhau dyfodol y clwb ar gyfer y deng mlynedd ar hugain nesaf, gobeithio!

Am fwy o wybodaeth am y Clwb ewch i www.denbighharriers.com

Menai Baugh


Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

**Llyr Gruffydd AC**
**Canolfan Fusnes Birch House**
**Hen Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1HN**
**01824 703593**
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

**@LlyrGruffydd**

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales


**Oes dyfodol i**
**GYMDEITHAS Y BIGWN?**
**Cyfarfod Agored**
i drafod y mater
**Nos Fawrth Tachwedd 16**
Melin Brwcws
am 7.00yh
Am fwy o wybodaeth ffoniwch
Nerys Davies,
Ysgrifennydd,
ar 01745 812239,
**cyn y cyfarfod**.

CLWB PÊL-DROED DINBYCH


Mae CPD Dinbych yn parhau heb eu curo yng Nghynghrair Ardal Gogledd Orllewin Lock Stock ac ar hyn o bryd ar frig y tabl, gyda Llanuwchllyn a Phorthmadog yn agos yn yr ail a'r trydydd safle. Cafwyd sawl perfformiad arbennig yn ystod y mis diwethaf gyda buddugoliaeth o 4-2 dros CPD Saltney o flaen torf o bron i 200 o bobl a gôl anhygoel gan Sam Tate i sicrhau'r tri phwynt.
Roedd brwydr am safle 1af y gynghrair yn y Traeth gyda gêm rhwng Porthmadog a Dinbych, ac er mai gêm gyfartal o 0-0 oedd hi, cafwyd gêm hynod gyffrous. Dylai Dinbych fod wedi gallu mynd ar y blaen ond fe arbedodd gôl-geidwad Porthmadog gic o'r smotyn gan Jake Walker wedi 30 munud. Yna, fel roedd Dinbych yn dechrau dominyddu, bu'n rhaid i Dewi Llion a'i gynorthwyydd Owain Roberts ail-strwythuro'r tîm wedi i Billy Holmes dderbyn cerdyn coch.
Gwelwyd torf anferth arall o dros 350 o bobl ar nos Wener dan y goleuadau wrth i Ddinbych wynebu Rhydymwyn a'u trechu o 11-2. Roedd hi'n 8-0 erbyn hanner amser ac felly ymlacion nhw ychydig yn ystod yr ail hanner gan adael dwy gôl siomedig i mewn. Daeth y goliau gan Lee Davey (2) Mark Roberts (2) , Stuart Jones (2) , Jake Walker (2), Sam Tate (2) a Sion Jones.
Mae'r Clwb wrth eu boddau yn gweld gymaint o gefnogaeth gan y gymuned leol a chymaint o gefnogwyr newydd yn dod i Central Park i gefnogi dynion Dewi Llion. Tâl mynediad yw £4 i oedolion a £2 i gonsesiynau.
Dan reolaeth Gethin Jones a Nick Hailes, mae'r Ail Dîm bellach yn cynnwys llwyth o fechgyn ifanc o'r dref a'r ardaloedd lleol. Maent ar hyn o bryd yng nghanol tabl Cynghrair Ail Dîm Gogledd Orllewin yr FAW. Cafwyd buddugoliaeth o 3-1 yn erbyn Ail Dîm Llandudno gyda dwy gôl gan Liam Roberts ac un gan Ciaran Lucas. Dilynwyd hyn gyda cholled o 3-1 yn Llangefni, yna gêm gyfartal o 2-2 yn erbyn Holyhead Hotspur gyda James Thomas ac Aled Williams yn rhoi'r tîm ar y blaen cyn i'r gwrthwynebwyr daro'n ôl.
Mae ein Tîm Ieuenctid (dan 18) dan reolaeth Ethan Jones a'i hyfforddwr newydd Alwyn Jones yn cael dechrau digon anodd i'r tymor gyda sawl un o'u gemau yn cael eu gohirio funud olaf. Dim ond dwy gêm maen nhw wedi chwarae'r tymor yma sef dwy golled o 7-0 yn erbyn Brickfield Rangers a 5-0 yn erbyn Dinas Bangor.
Yr un yw hanes tîm y Merched hefyd yng Nghynghrair Haen 2 o Bêl-droed Merched Cymru. Maent wedi colli yn erbyn Llandudno a Chei Conna sef dau o dimau gorau'r gynghrair. Mae'r rheolwr Ellen Lawson wedi trefnu i Aled Davies, cyn rheolwr Merched Y Rhyl i ymuno gyda'r tîm hyfforddi dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith o wella'r canlyniadau.
Mae'r Clwb bob amser yn edrych am wirfoddolwyr i helpu ar ddiwrnodau gemau ac mae'n ffordd wych o gyfarfod pobl newydd ac o helpu'r Clwb hefyd. Rhai o'r swyddi gwag ar hyn o bryd yw stiwardio, swyddog y cyfryngau, a gwaith yn y gegin a'r bar. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788 627819 am fwy o wybodaeth.


## Y BIGWN - YSGRIFENNYDD

Rydym yn chwilio am Ysgrifennydd
cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745
814497ed321@btinternet.com
neu â:-Stan Lyall 01745 813659
stanmaberic@hotmail.com

## Y BIGWN - TRYSORYDD

Rydym yn chwilio am Drysorydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
John Geraint Jones 01745 817485
jones_john@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659 stanmaberic@hotmail.com



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Dementia Gyfeillgar Dinbych





Un o'r cŵn yn Llys Meddyg





Ysgol y Parc yn derbyn Tystysgrif Adnewyddu eu Hymgysylltu



Y criw natur er budd iechyd



Llyfrgell yn derbyn Tystysgrif Ymgystylltu

## Clwb Pel-droed Dinbych



Rheolwr y Tîm Ieuenctid, Ethan Jones yn rhannu joc gyda hyfforddwr yr Ail Dîm, Gethin Jones



Hyfforddwr newydd y Tîm Ieuenctid, Alwyn Jones, sydd wedi ymuno â'r clwb o CPD Henllan.



Sam Tate, a sgoriodd ddwy gôl yn erbyn Rhydymwyn.

## Harriers Dinbych ar y brig



Harriers Dinbych  Tîm Merched



Harriers Dinbych  Tîm y Dynion



Rhedeg i fynnu
Foel Famau



Ron Birch, aelod hynaf yr Harriers

